Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd

# Adroddiad Blynyddol ar Adolygu Dyluniadau 2018

*This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.*

- Mae'r grŵp yn cynnwys y Tîm Creu Lleoedd a Swyddogion Rheoli Datblygiad sy'n prosesu ceisiadau cynllunio perthnasol.
- Cyfarfu'r grŵp Adolygu Dyluniadau 32 o weithiau yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r grŵp yn adolygu ansawdd dyluniadau datblygiadau yn erbyn polisïau dylunio mewn cynlluniau datblygu lleol perthnasol, canllaw cynllunio atodol mabwysiedig a hefyd gyngor arall, gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol Rhif 12 - Dylunio sydd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r broses fwyaf buddiol o adolygu yn dechrau ar gam cyn cais cynllunio, fel arfer gyda chynlluniau cysyniadol bras, sy'n caniatáu am drafodaeth agored a chadarnhaol am y strwythur, y raddfa, a'r cymeriad ynglŷn ag unrhyw ddyluniad sy'n dod i'r amlwg ac a all gael ei ddatblygu'n gyflym i ganiatâd manwl. Nod y broses yw helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn modd cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau ar y dyluniad a helpu i ymgeiswyr gael caniatâd ar gyfer datblygu yn rhwydd.
- Cofnodir y drafodaeth ac adroddir ar y sylwadau yn ôl i ymgeiswyr pan fo angen gwneud adolygiadau.

Trafodwyd 119 o gynlluniau yn y cyfarfod yn ystod 2018, gan gynnwys:

- **Llety myfyrwyr newydd ar gyffordd Heol Maendy a Heol Y Gogledd:** Ceisiwyd newid maint yr adeilad er mwyn lleihau'r effaith ar gymdogion.
- **Estyniad i Westy'r Angel, Stryd Y Castell /Heol Y Porth:** Gofynnwyd am ddyluniad cyfredol mwy ystyriol i ymgysylltu'r cynllun yn well â'r strydlun hanesyddol, ac i adolygu maint yr adeilad er mwyn lleihau'r effaith ar gymdogion yn y cefn.
- **Bradley Court:** Addasu'r cynlluniau wedi eu hadolygu i leihau'r effaith ar gynllun amlwg iawn mewn rhai golygfeydd yng nghanol y ddinas hanesyddol a gofynnwyd am ddefnydd o lawr daer ar wahân mewn lleoliad allweddol yng nghanol y ddinas.
- **Cam Un o Ailddatblygiad Safle Brains:** Cefnogaeth ar gyfer cam un yr adeilad ond awgrymwyd adolygu gwahanol agweddau ar yr uwchgynllun
- **Gwahanol ddatblygiadau cam cynnar ym Mhlasdŵr:** Trafodwyd cynnwys a strwythur cod dylunio da iawn ar gyfer y safle datblygu mawr hwn i helpu i sicrhau cymeriad pob un o'r camau datblygu dilynol. Gwaith ar gamau allweddol i sicrhau y caiff y dyluniad ei uwchraddio pan fo angen mewn lleoliadau allweddol.
- **Y Gyfnewidfa newydd:** Cefnogaeth eang ar gyfer y cynnig am gyfnewidfa gorsaf fysys arfaethedig.
- **Adeilad newydd ar gyfer Mathemateg a Gwyddorau Cyfrifiadureg, Senghennydd Rd:** Pryderon ynglŷn â graddfa'r project, y defnydd o ddeunyddiau tywyll, ffurf y golofnres a'i chyfeiriad ynglŷn â'r orsaf gyfagos.
- **Cyn cais ar gyfer cynllun ar safle tai mawr strategol:** Gwrthod ffurflen safonol ar gyfer datblygiad maestrefol gan adeiladwr tai ar raddfa fawr, gofal parhaus i sicrhau lleoedd penodol o ansawdd eithriadol o fewn y cynllun gan egluro cynnwys Cod Dylunio da.

- **Ailddatblygu Adnewyddiad Marchnad Tai ar Crofft Street:** Addasu graddfa'r datblygiad o unedau parod ar gyfer adeiladu oddi ar safle arloesol. Craffu parhaus ar ansawdd y datblygiad.
- **Mynwent Draenen Pen-y-graig:** Cefnogaeth eang am broject pwysig gydag awgrymiadau ar gyfer gwella tirwedd a phatrwm y mynediad mewnol.
- **Cam datblygu safle strategol Churchlands:** Trafodaethau cyn cais gyda'r nod o annog yr adeiladwr tai i alinio ei gynlluniau gyda chynnwys y Cod Adeiladu cymeradwy sy'n ceisio sicrhau lleoliadau arbennig o fewn cynllun.
- **Estyniad Techniquest:** Cefnogaeth eang am ddull o ehangu'r defnydd pwysig, gan amlygu manylion i'w hystyried ymhellach.
- **Safle Browning Jones a Morris, Heol Dumballs:** Rheoli dyluniad datblygiad arwyddocaol yn llwyddiannus gan osod enghraifft dda ar gyfer datblygiadau yn yr ardal yn y dyfodol. Gwrthodwyd yn llwyddiannus y broses o beirianneg dylunio ar gyfer cynllun a gymeradwywyd.
- **Estyniad swyddogaeth grefyddol mewn adeilad hanesyddol:** Ystyried syniadau dylunio arloesol i adeiladu estyniad sylweddol mewn adeilad hanesyddol/tŷ teras i ddarparu ar gyfer teml a gofodau eraill.
- **Hen safle swyddfeydd y llywodraeth:** Uwchgynllun ar gyfer ailddatblygu Cefnogaeth eang ar gyfer agweddau ar yr uwchgynllun drafft i safle sylweddol, gydag awgrymiadau ar gyfer datblygu rhai agweddau ar y cynllun.
- **Amgueddfa newydd ym Mae Caerdydd:** Cefnogaeth eang ar gyfer adleoli'r cynllun hwn o un safle i leoliad gwell gyda'r awgrym sut y gall edrych ar lan y dŵr, ynghyd â syniadau ar gyfer dylunio'r man cyhoeddus cyfagos.
- **Ailddatblygu ystâd tai Radburn:** Cefnogaeth eang ar gyfer project adfywio uchelgeisiol, ond pryderon ynglŷn â rhai agweddau ar ei ddichonolrwydd, graddfa, lefelau'r maes parcio a mynediad i fysys.
- **Ailddatblygu dau hen safle ysgolion uwchradd:** (Cynllun 1) Pryderon parhaus am y dyheadau gwneud lleoedd o ran rhai agweddau ar y cynllun hwn, gan gynnwys ei athreiddedd ar gyfer cerddwyr a syniadau am ddylunio mannau allweddol. (Cynllun 2) Cefnogaeth ar gyfer cynllun hynod ddiddorol, gyda rhai pryderon ynglŷn â graddfa un adeilad yn ogystal â thrafodaethau parhaus am lwybr cerddwyr allweddol.

*Mae'r broses adolygu dyluniadau wedi darparu sylwadau ymatebol ar ddyluniadau'r cynigion ar gam cyn cais a cham y cais i helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gael caniatâd datblygu. Mae'r broses wedi darparu adolygiadau o gynlluniau yn gyson er mwyn cyflawni gwelliannau ar ystod eang o faterion dylunio maestrefol, pensaernïol, tirlunio a pheirianneg. Mae'r broses hefyd wedi cefnogi swyddogion cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer 2 gynllun yn unig a oedd wedi eu dylunio'n wael, yr adolygwyd un ohonynt yn dilyn hyn a'i gymeradwyo.*

*Ceir cyngor ar yr hyn sy'n ddyluniad da a gwael mewn canllaw polisi dylunio cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a hefyd yng nghanllaw cynllunio atodol mabwysiadedig Caerdydd. Gellir cal rhagor o gyngor gan dîm Creu Lleoedd ar y cyfeiriad e-bost isod.*

Fersiwn: 08 Ionawr 2019
Cyswllt: Dylunio@caerdydd.gov.uk

CARDIFF
CAERDYDD